YSGOL BRYNREFAIL

PLÂT AMDANI

Ar ôl colli i Ysgol Glan y Môr yng nghymal cyntaf Cwpan Eryri roedd ail gyfle i'r tîm Dan 15 yn gystadleuaeth y plât. Ar ôl dwy daith fuddugol oddi cartref yn Ysgol Syr Thomas Jones, Amlwch ac Ysgol Creuddyn, Llandudno lle ddaru'r bechgyn sgorio dros 70 o bwyntiau heb ildio dim, braf oedd cael croesawu Coleg St Davids, Llandudno i Lanrug ar gyfer gem gynderfynol Plât Eryri.

Dechrau digon blêr cafwyd y bechgyn gyda'r dwylo ddim

cweit wedi cynhesu fyny, ond buan ddaru hynna newid gyda Gwion Lowe yn croesi am y cais agoriadol, dyna oedd y sbarc oedd ei angen ar y bechgyn a doedd dim amheuaeth pwy oedd am ennill y gêm hon. Sicrhawyd y fuddugoliaeth o fewn 10 munud o'r ail hanner diolch i Ancel Davison, y blaenasgellwr yn croesi am dri chais, ac yn llawn haeddu'r teitl o Seren y Gêm ac yn onest efallai Seren y Tymor i'r tîm Dan 15 a 16.

Felly ar ôl buddugoliaeth o 45 - 12 ymlaen i ffeinal y Plât yng Nghaernarfon mae'r hogiau!